

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Iechyd Deintyddol Teulu
Edwards, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 8 Ionawr
2018

Dyddiad cyhoeddi: 10 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	18
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad â rhybudd o Ganolfan Iechyd Deintyddol Teulu Edwards, 12 Heol Newydd, Pontnewydd, Cwmbrân, NP44 1EE, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 8 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y staff yng Nghanolfan Iechyd Deintyddol Teulu Edwards yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf, a rhoddir pwyslais cryf ar driniaeth ddeintyddol ataliol. Roedd gan y practis y polisiau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith er mwyn cefnogi'r practis a'r staff.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant mewn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd dystiolaeth fod y ddau brif ddeintydd yn gryf wrth arwain
- Roedd y staff yn rhyngweithio'n broffesiynol gyda chleifion ac yn gyfeillgar ac yn gwrtais â nhw
- Roedd y practis yn annog y cleifion i roi adborth
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Trwsio'r ôl traul yn y manau clinigol
- Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel
- Bod cofnodion yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Iechyd Deintyddol Teulu Edwards yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Cwmbrân a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, chwe nyrs ddeintyddol, ac un derbynnydd.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y practis wedi ymrwymo i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd y cleifion hynny a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.

Sylwodd rhai o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod staff y practis yn gyfeillgar ac yn darparu gwasanaeth ardderchog.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 18 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Practis cyfeillgar iawn – yn amlwg â diddordeb ynoch fel unigolyn ac nid fel claf yn unig. Cyfathrebu clir am bob triniaeth gan ddefnyddio iaith ddealladwy. Dyma'r practis gorau rwyf wedi bod ynddo erioed."

"Mae'n bleser gennyf fod yn glaf yn y practis teuluol hwn. Mae'n lle cyfrifol, hylan a chyfeillgar i ddod iddo, ac rwy'n gobeithio aros yn y practis am flynyddoedd lawer. Daliwch ati gyda'r lefel arbennig o ofal."

"Rwy'n fodlon iawn gyda lefel y gwasanaeth y mae Practis Deintyddol Teulu Edwards yn ei darparu – efallai y byddai'n dymuno ystyried system trefnu apwyntiadau ar-lein yn y dyfodol."

"Mae'r staff yn hynod barod eu cymwynas ac yn broffesiynol. Mae'r gwasanaeth mae fy nheulu'n ei dderbyn gan y practis yn rhagorol."

Cadw'n iach

Yn y man aros, gwelsom ddetholiad o daflenni hybu iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni gwybodaeth ynghylch triniaethau a chyngor ataliol. Dywedodd

pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi trafod gydag ef sut y gallai gadw ei geg a'i ddannedd mewn cyflwr iach.

Gofal ag urddas

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Dywedodd staff wrthym fod modd cynnal sgwrs breifat gyda chlaf mewn ystafell driniaeth rydd pe bai angen. Gellid gwneud galwadau ffôn o'r ystafell staff ar y llawr cyntaf, gan roi preifatrwydd i'r claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y byddai'r drysau i'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu cloi pan oedd cleifion yn derbyn triniaeth, gan roi preifatrwydd ac urddas iddynt.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan (gymaint ag y dymunai fod) o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch ei driniaeth ddeintyddol. Dywedodd pob claf ei fod wedi cael gwybodaeth glir gan y tîm deintyddol am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd yr 18 o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth. Dywedodd pob claf ond tri o'r cleifion hynny eu bod yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Yn y dderbynfa a'r man aros, roedd rhestrau prisiau wedi'u harddangos ar gyfer triniaeth ddeintyddol breifat a thriniaeth ddeintyddol y GIG.

Cyfathrebu'n effeithiol

Nododd yr holl gleifion ar yr holiaduron eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser. Roedd hyn yn cynnwys y rhai a oedd yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Roedd sylwadau a roddwyd gan y cleifion yn yr holiaduron a oedd yn canmol y staff yn cynnwys y canlynol:

"Rwyf wedi bod gyda'r practis hwn am fron i flwyddyn – rwy'n meddwl bod y staff yn ardderchog ac yn rhoi gwasanaeth da iawn gyda safon uchel o ofal."

"Mae pawb yn broffesiynol iawn ac yn hynod gyfeillgar."

"Maen nhw'n barod i helpu bob amser, yn llawn gwybodaeth, ac yn gwneud i chi ymlacio bob tro."

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff hefyd yn ymddwyn mewn modd moesgar a chwrtais wrth siarad â chleifion yn bersonol a dros y ffôn.

Gofal amserol

Dywedodd 17 o'r 18 o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion am sut gallai cleifion gael mynediad i ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau yn cael eu harddangos y tu mewn a'r tu allan i'r practis. Roedd yr wybodaeth hefyd yn cael ei darparu ar neges peiriant ateb y practis.

Roedd y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn sicrhau bod unrhyw gleifion yn cael eu hysbysu pe bai oedi gyda'r deintydd.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dangosodd archwiliad o gofnodion cleifion fod cleifion yn cael eu holi am eu hanes meddygol ar adeg eu hymweliad. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Roedd y dderbynfa, y man aros, ac un ystafell driniaeth ac un "bwth" (dyma le byddai'r nyrs ddeintyddol yn trin cleifion) ar y llawr daear, gan olygu eu bod yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Roedd gris o'r stryd i'r practis, a byddai'r staff yn gosod ramp i gynorthwyo cleifion sydd ag anawsterau symudedd wrth fynd i mewn. Roedd ail ystafell driniaeth a "bwth" ar y llawr cyntaf.

Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd tri chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd polisi cwynion y practis yn ymdrin â thriniaethau deintyddol preifat a'r GIG. Roedd polisi'r GIG yn adlewyrchu proses gwyno'r GIG, sef "Gweithio i Wella",¹ ac roedd y polisi mewn perthynas â thriniaeth ddeintyddol breifat yn cyfeirio at AGIC, sef yr awdurdod cofrestru, sy'n golygu ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Roedd poster "Gweithio i Wella" y GIG wedi'i arddangos yn y dderbynfa.

Roedd gan y practis broses a system ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion a dderbynnir ganddo. Roedd yr holl gwynion, gan gynnwys unrhyw adborth anffurfiol ar lafar, yn cael eu cofnodi ar ffurflen gwynion y practis. Prin iawn oedd y cwynion oedd wedi'u derbyn gan y practis, ond dywedodd staff wrthym y byddent yn sicrhau bod unrhyw themâu neu dueddiadau o ganlyniad i adborth gan gleifion yn cael eu hystyried a'u trafod ymysg y tîm.

Roedd y practis wedi creu system ar gyfer casglu adborth gan gleifion – gyda blwch awgrymiadau wedi'i osod yn y dderbynfa. Roedd arolygon cleifion hefyd yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a'u dadansoddi, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau cleifion yn cael eu casglu a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd (lle bo'n berthnasol) er mwyn gwella'r gwasanaeth. Byddai canlyniadau'r arolygon yn cael eu bwydo yn ôl i staff yn ystod cyfarfodydd y practis. Yn ôl pob golwg, roedd cleifion a gwblhaodd holiadur yn ymwybodol o'r arolygon hyn i gleifion; dim ond chwarter o'r cleifion a ddywedodd wrthym nad oeddent yn cael eu holi am eu safbwyntiau am y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol.

¹ "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddiwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Gwnaethom nodi bod y cyfleusterau clinigol yn llawn offer a'u bod i'w gweld yn lân ac yn daclus – er bod rhai arwyddion o ôl traul yr oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ac roedd tystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Roedd gan y practis bolisiâu diogelu ar waith, ond mae angen sicrhau bod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ddiogelu.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd arwyddion o ôl traul yn yr ystafelloedd triniaeth (roedd y cypyrddau wedi'u naddu ychydig), ac roedd angen rhoi sylw i hyn er mwyn sicrhau hylendid a phrosesau glanhau trwyadl.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion a gwblhaodd holiadur ynghylch glendid y practis, a gwnaethom sylwi bod holl fannau'r practis yn lân ac yn daclus.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad a gwnaethom nodi eu bod wedi eu derbyn gwasanaeth yn

ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Roedd y cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn weladwy.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol), gwastraff nad yw'n beryglus (cartref), a gwastraff amalgam yn ddiogel.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae'n rhaid i gyflogwyr naill ai atal neu leihau datguddiad staff i sylweddau sy'n niweidiol i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio "Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd" a dalenni data diogelwch perthnasol ac roedd y rhain yn darparu gwybodaeth am sylweddau sy'n "beryglus i'w cyflenwi" a chyfarwyddiadau ar gyfer defnydd diogel mewn perthynas â sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis.

Roedd gan y practis lyfr Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR), a oedd yn cael ei gwblhau pan oedd damwain.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis fynd i'r afael ag unrhyw arwyddion o ôl traul yn yr holl fannau clinigol.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol a phriodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.²

Roedd gwaith glanhau a sterileiddio yn cael ei wneud yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru a chanllawiau'r gwneuthurwyr. Gwelsom fod y llyfrau cofnodi priodol ar gyfer gwirio'r cyfarpar sterileiddio yn cael eu cynnal a bod polisi rheoli heintiau ar waith.

² Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol pan oeddent yn gweithio yn y mannau dadheintio. Dangosodd pob aelod o'r staff clinigol dystiolaeth fod ei hyfforddiant ar reoli heintiau yn gyfredol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion, ac roedd pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y flwyddyn ddiwethaf ar sut i fynd i'r afael ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y staff gyffuriau ac offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU.³ Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel a gellid mynd atynt yn hawdd.

Gwnaethom nodi bod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau a chyfarpar brys o fewn eu dyddiad ac yn barod i'w defnyddio.

Gwnaethom nodi bod padiau rhagnodi'n cael eu cadw'n ddiogel. Roedd gan y practis bolisi gwaredu ar gyffuriau a reolir.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisiau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y polisiau hefyd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Roedd pob aelod o staff (ac eithrio un nyrs ddeintyddol) wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Er bod y staff wedi cael rhywfaint o wybodaeth am amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed fel rhan o'u hyfforddiant ar amddiffyn plant, nid oedd hon yn benodol i'r pwnc nac yn hyfforddiant cynhwysfawr. Argymhellwn fod trefniadau'n cael eu gwneud i bob aelod o staff dderbyn hyfforddiant cyfredol mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

³ Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn y practis. Roedd gan bob aelod o staff dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant diogelu perthnasol a'u bod yn ei gwblhau.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol yn gweithio'n dda ac roedd y manau a reolir wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennau'n dangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal a'i chadw ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁴ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.⁵

Er bod y cyfarpar yn cael ei wasanaethu bob blwyddyn, nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth fod gwasgedd y cywasgydd yn cael ei brofi'n rheolaidd. Byddem yn argymhell i'r practis gael arweiniad gan y gwneuthurwr o ran pa mor aml y dylid cynnal gwiriadau dyddiol a gweithredu'r cyngor hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod gwasgedd y cywasgydd yn cael ei brofi'n rheolaidd a bod llyfrau log yn cael eu cwblhau er mwyn cofnodi hyn.

⁴ Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

⁵ http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliadau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys rheoli gwastraff a thynnu pelydrau-X. Gwnaeth y practis hefyd gynnal archwiliad yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn 2017. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynghori bod practisau'n adolygu canlyniadau eu harchwiliadau bob blwyddyn o leiaf, neu pan fod problem o ran dadheintio'n codi, er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu cynnal a'u cadw.

Gwnaeth y practis hefyd gynnal hunanasesiad o'i brosesau sicrhau ansawdd ym mis Hydref 2017, ac roedd yn aros am y canlyniadau ar adeg yr arolygiad.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd y practis yn cadw cofnodion ysgrifenedig. Roedd cofnodion cleifion presennol yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo yn y dderbynfa. Roedd cofnodion archifol yn cael eu cadw mewn cabinet ffeiliau yn rhoiledau/y Stafell newid y staff. Nid oedd y cabinet wedi'i gloi. Argymhellwn fod y cabinet hwn yn cael ei gadw ar glo bob amser.

Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith, gan gynnwys polisi cyfrinachedd y practis, cod ymarfer ar gyfer diogelu data, a pholisi rhyddid gwybodaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion sydd wedi cael eu harchifo yn cael eu storio'n ddiogel mewn cabinet y gellir ei gloi.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Canfuom nad oedd pelydrau-X rhai cleifion yn cael eu cyfiawnhau neu eu graddio mewn rhai achosion, a bod angen i'r practis sefydlu pa mor aml yr oedd pelydrau-X yn cael eu tynnu. Nodwyd hefyd nad oedd cofnodion yn gynhwysfawr ar y cyfan ac nad oedd digon o wybodaeth yn cael ei chofnodi ynddynt ynglŷn â'r archwiliad a'r cyngor a thriniaeth a ddarparwyd. Byddem yn argymhell bod y practis yn cynnal archwiliad clinigol llawn o gofnodion.

Mae angen i'r practis hefyd gynnwys rhif cofrestru'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)⁶ mewn unrhyw ddogfennau labordy sy'n gysylltiedig â pheiriant CEREC.⁷

Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a ddarparwyd, a gwybodaeth berthnasol am belydrau-X.

Dylai'r practis sicrhau bod dogfennau labordy yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.

Dylai'r practis gynnal archwiliad clinigol llawn o gofnodion ei gleifion.

⁶ <https://www.gov.uk/government/organisations/medicines-and-healthcare-products-regulatory-agency/about>

⁷ Mae CEREC neu Cerec (*Chairside Economical Restoration of Esthetic Ceramics*, neu *CEramic REConstruction*) yn ddull deintyddiaeth CAD/CAM a ddatblygwyd gan W. Mörmann a M. Brandestini ym Mhrifysgol Zurich yn 1980 ar gyfer creu adferiadau deintyddol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Yn ystod yr arolygiad, canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth a llinellau atebolrwydd da. Un o'r prif ddeintyddion oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Roedd gweithdrefnau rheoli da ar waith er budd y staff, gan gynnwys arfarniadau staff (a oedd yn cynnwys cynlluniau datblygiad personol) a chyfarfodydd staff rheolaidd â chofnodion.

Roedd gan y practis amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan un o'r prif ddeintyddion, â chefnogaeth gan staff y practis. Canfuom fod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y practis yn drefnus iawn ac roedd amrediad eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Roedd gan rai polisiâu, megis polisi diogelu'r practis, er enghraifft, wybodaeth ac arweiniad ychwanegol i ategu gwybodaeth staff ynglŷn â'r pwnc. Gwnaethom nodi bod gan bolisiâu ddyddiadau adolygu a'u bod yn cael eu llofnodi a'u dyddio gan yr holl staff i gadarnhau eu bod wedi cael eu darllen ac i ddangos tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis - roedd rhai wedi bod yno ers dros 15 mlynedd - a gwelsom berthynas gref rhwng holl staff y practis. Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff fod gan y practis rhaglen ymsefydlu ar waith. Roedd rhaglen o arfarniadau staff hefyd a dywedwyd wrthym y byddai'r rhain yn cael eu cysylltu â chynlluniau datblygiad personol pob aelod o staff. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac roedd hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd, caiff cofnodion eu creu ar eu hôl, a rhoddir copïau ym mhob ffeil staff. Roedd y cofnodion yn dangos bod y staff yn dysgu yn ystod y cyfarfodydd – er enghraifft, hyfforddiant ar sut i storio offer a Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar bob aelod o staff clinigol a'r rhai hynny nad ydynt yn glinigol.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod gan bob un yswiriant indemniad priodol. Roedd y ddau ddeintydd yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom dystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn glir yn unol â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau.⁸ Roedd y practis yn darparu tystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o staff clinigol.

⁸ Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Iechyd Deintyddol Teulu Edwards

Dyddiad yr arolygiad: 8 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Iechyd Deintyddol Teulu Edwards

Dyddiad yr arolygiad: 8 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r practis fynd i'r afael ag unrhyw arwyddion o ôl traul yn yr holl fannau clinigol.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Ailosod drysau'r cabinet sydd wedi'u treulio a'r arwynebau gwaith.	David Edwards	Wedi cwblhau drysau'r cabinet. Ailosod yr arwynebau gwaith ym mis Ebrill 2018.
Dylai'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant diogelu perthnasol a'u	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion	Cwrs diogelu ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed wedi'i drefnu. Pob aelod	Jayne Leake	21/3/18

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
bod yn ei gwblhau.	mewn perygl	o staff i fynd.		
Mae angen i'r practis sicrhau bod gwasgedd y cywasgydd yn cael ei brofi'n rheolaidd a bod llyfrau log yn cael eu cwblhau er mwyn cofnodi hyn.	2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Cysylltu â'r gwneuthurwr am arweiniad. Staff wedi'u hyfforddi o ran cynnal gwiriadau gwasgedd dyddiol. Llyfrau log wedi'u diwygio er mwyn adlewyrchu hyn.	Emma Edwards	Cwblhawyd
Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion sydd wedi cael eu harchifo yn cael eu storio'n ddiogel mewn cabinet y gellir ei gloi.	3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu	Mae cardiau cofnodion cleifion wedi'u symud i gwpwrdd diogel y gellir ei gloi.	Emma Edwards	Cwblhawyd
Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a ddarparwyd, a gwybodaeth berthnasol am belydrau-X.	3.5 Cadw cofnodion	Cynhaliwyd hyfforddiant ychwanegol ar gadw cofnodion clinigol, gan ddefnyddio canllawiau gan y Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol, ac adolygiad o'r polisi ar gyfer cadw cofnodion.	Emma Edwards David Edwards	Cwblhawyd
Dylai'r practis sicrhau bod dogfennau labordy yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.		Cwblhawyd y gwaith o gofrestru gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. Mae dogfennau labordy ar gyfer CEREC yn cynnwys y wybodaeth	Emma Edwards	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		berthnasol.		
Dylai'r practis gynnal archwiliad clinigol llawn o gofnodion ei gleifion.		Mae archwiliad o'r gwaith o gadw cofnodion clinigol wedi'i ddechrau.	Emma Edwards	Mai 2018

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Emma Edwards
Swydd: Rheolwr y practis
Dyddiad: 1//3/18